CYLCHLYTHYR RHIENI
Haf 2024

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Sut gallwn ni helpu

Mae Gyrfa Cymru yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn i wneud y penderfyniadau addysg a gyrfa cywir.

Cefnogi pobl ifanc

Gall ein cynghorwyr gyrfa wneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd diduedd
- deall cryfderau, diddordebau a gwerthoedd eich plentyn i helpu i nodi llwybrau gyrfa posibl
- cyfarwyddo'ch plentyn wrth iddo ddewis pynciau
- rhannu gwybodaeth am opsiynau gyrfa, diwydiannau, a marchnadoedd swyddi amrywiol
- helpu'ch plentyn i osod nodau tymor byr a hirdymor cyraeddadwy sy'n gysylltiedig â'i uchelgais gyrfa
- cefnogi'ch plentyn os bydd yn wynebu anawsterau a heriau

Mae ein cynghorwyr gyrfa yn teilwra eu dull yn dibynnu ar oedran ac anghenion eich plentyn.

Cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

- Os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol efallai y bydd y cynghorydd gyrfa yn cael ei wahodd i'w adolygiad blynyddol i drafod ei bontio o'r ysgol. Gall y cynghorydd gyrfa roi gwybodaeth a chyngor ar opsiynau ar ôl gadael yr ysgol a'ch cyfeirio at asiantaethau eraill a allai hefyd eich cefnogi chi a'ch plentyn wrth iddo adael yr ysgol.

Cefnogi rhieni

Gall ein cynghorwyr gyrfa wneud y canlynol:

- cynnig mewnwelediadau yn ymwneud â dewisiadau cwrs priodol a llwybrau addysgol yn seiliedig ar ddiddordebau a chryfderau eich plentyn
- eich helpu i ddeall gofynion academaidd ar gyfer llwybrau gyrfa amrywiol; gan gynnwys coleg a rhaglenni galwedigaethol
- rhannu gwybodaeth am wahanol yrfaoedd, diwydiannau a marchnadoedd swyddi; eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd posibl i'ch plentyn
- eich helpu i ddeall prosesau ymgeisio colegau a phrifysgolion

Tudalennau gwefan ar gyfer rhieni

Yn ogystal â chynghorydd gyrfa cyswllt yn ysgol eich plentyn, mae ein gwefan yn hafan i lu o wybodaeth a all eich helpu i gefnogi eich plentyn ar bob cam o'i daith gyrfa.



Mae ein fideo YouTube hefyd yn dweud rhagor wrthych chi am y gefnogaeth rydyn ni'n ei rhoi i'ch plentyn.



gyrfacymru.llyw.cymru/rhieni

Gyrfa Cymru - Cefnogaeth i rieni

Adnoddau ar-lein

Oeddech chi'n gwybod bod gennym ni amrywiaeth o offer ac adnoddau ar-lein i helpu'ch plentyn i nodi ei gryfderau a'i wendidau a dysgu am opsiynau gyrfa yn y dyfodol? Dyma rai ohonynt:



Fy Nyfodol

Adran hawdd ei darllen gydag adnoddau megis 'Sôn am Swyddi', 'Cwis Pwy ydw i?' a 'Cwis Syniadau am Swyddi'.



Cwis Paru Gyrfa

Cael syniadau gyrfa a darganfod pa swyddi allai fod yn iawn i'ch plentyn.



Crefft Gyrfaoedd

Mae ein gêm Minecraft yn adnodd perffaith i chwaraewyr archwilio pynciau gyrfaoedd a datblygu sgiliau trwy ymweld â gwahanol dirnodau yng Nghymru.



Gwybodaeth am Swyddi

Darganfyddwch beth mae swydd yn ei olygu, beth yw'r cyflog a beth fyddai ei angen i wneud cais.

Swyddi Dyfodol Cymru

Fel rhiant, efallai y bydd gennych ddiddordeb mawr mewn deall tirlun gyrfa'r dyfodol sy'n aros i'ch plentyn.

Mae ein hadnodd gwybodaeth rhyngweithiol newydd am y farchnad lafur, Swyddi Dyfodol Cymru, yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwydiannau allweddol a rhanbarthau Cymru.



Swyddi yng Ngogledd Cymru

Swyddi yng Nghanolbarth Cymru

Swyddi yn Ne-orllewin Cymru



Swyddi yn Ne-ddwyrain Cymru



Swyddi mewn Adeiladu



Swyddi mewn Ynni

Swyddi mewn Iechyd

Sut gallwn ni helpu eich plentyn

Straeon go iawn

Dewis arall yn lle'r chweched dosbarth

Roedd Olivia, 17 oed, yn gwybod nad oedd hi eisiau parhau yn yr ysgol i'r chweched dosbarth. Siaradodd â Vicky, ei chynghorydd gyrfa yn yr ysgol, i gael deall yr opsiynau eraill a oedd ar gael iddi.

Yn ystod sawl sesiwn gyda'i gilydd, bu Vicky yn cynorthwyo Olivia i archwilio ei hoff bethau a'i chas bethau. Buont yn edrych ar rolau gyrfaoedd a allai fod yn addas iddi hi a buont yn trafod y cymwysterau y byddai eu hangen arni ar gyfer y rolau hynny.

Dywedodd Olivia: "Tawelodd Vicky fy meddwl, nad oedd yn rhaid i fi fynd i'r chweched dosbarth yn gyntaf cyn gwneud prentisiaeth. Helpodd hi fi i sylweddoli y gallwn i fynd yn syth i mewn i brentisiaeth, ac roedd hyn yn rhyddhad enfawr."

Stori Olivia

Yn dilyn cefnogaeth gan gynghorydd gyrfa, mae Olivia yn ffynnu mewn prentisiaeth peirianneg.

Cadarnhau'r camau nesaf

Aeth Olivia ymlaen i ddweud: "Roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau gwneud prentisiaeth. Roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau mynd i'r coleg ac astudio pwnc penodol.

"Defnyddiais y dulliau y dangosodd Vicky i mi i ddod o hyd i gyfleoedd. Roedd hyn yn cynnwys yr adnodd Chwilio am Brentisiaethau ar wefan Gyrfa Cymru.

"Drwy hyn des i o hyd i'r brentisiaeth peirianneg yn Qioptiq ac roeddwn i eisiau gwneud cais."

Cynorthwyodd Vicky Olivia i ddatblygu ei CV a llythyr eglurhaol ar gyfer y rôl. Bu hefyd yn helpu i baratoi ar gyfer cyfweliad.

Creu peiriannydd

Dechreuodd Olivia ei phrentisiaeth ar ôl gorffen yn yr ysgol yn ystod haf blwyddyn 11. Mae hi wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers hynny.

Dywedodd hi: "Doeddwn i ddim yn gwybod beth roeddwn i eisiau ei wneud. Rwy wedi sylweddoli nawr bod hyn yn rhywbeth rwy'n ei fwynhau'n fawr.

Hoffai Olivia i bobl ifanc eraill wybod bod opsiynau eraill y gallant eu cymryd ar ôl ysgol. Ychwanegodd: "Peidiwch â bod ofn archwilio opsiynau eraill. Does dim rhaid i chi wneud yr hyn y mae eich ffrindiau yn ei wneud."

Opsiynau

Efallai y bydd angen i'ch plentyn wneud penderfyniad gyrfa pwysig yn ystod tymor yr haf.

Eich plentyn ym mlynyddoedd 8 a 9

Mae Blwyddyn 8 a 9 yn adeg hollbwysig yn nhaith academaidd person ifanc wrth iddo ddechrau dewis ei bynciau TGAU. Mae'n amser pan allant ymchwilio i'r pethau maent yn angerddol amdanynt, gan ddarganfod beth sy'n tanio ei chwilfrydedd ac sy'n gyrru ei uchelgais.

Gall y pynciau y bydd eich plentyn yn eu dewis effeithio ar y canlynol:

- Y chweched dosbarth neu goleg y gall ei fynychu
- Pa bwnc, cwrs a chymwysterau y gall eu gwneud nesaf, neu'n hwyrach yn y brifysgol
- Pa brentisiaethau y gall wneud cais amdanynt
- Pa swydd gall ei gwneud yn y dyfodol

Mae cefnogaeth ar gael yma

Eich plentyn ym mlynyddoedd 10 ac 11

Ym mlynyddoedd 10 ac 11 bydd eich plentyn yn brysur yn gweithio tuag at ei gymwysterau cyntaf. Yn ystod y cyfnod hwn mae angen iddo feddwl am yr hyn y mae am ei wneud ar ôl blwyddyn 11 ac ymchwilio i'w opsiynau.

Ar ôl blwyddyn 11 gallai eich plentyn benderfynu gwneud y canlynol:

- Parhau mewn addysg
- Gwneud prentisiaeth
- Cael swydd
- Gwneud cais am raglen hyfforddi a datblygu Twf Swyddi Cymru+
- Dod yn hunangyflogedig

Mae cefnogaeth ar gael yma

Gall canlyniadau eich plentyn agor llawer o ddrysau a'i alluogi i ddilyn nifer o lwybrau gwahanol. Mae gennym ni wybodaeth i helpu os yw eich plentyn ar fin cael ei ganlyniadau yr haf hwn.

Eich plentyn yn y coleg neu'r chweched dosbarth

Bydd eich plentyn yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros ei hun, ei waith a'i gynlluniau. Ond bydd eich cefnogaeth yn dal i fod yn bwysig wrth iddo benderfynu beth i'w wneud nesaf. Ar ôl ei gwrs efallai y bydd eich plentyn yn ystyried y canlynol:

- Astudiaethau pellach yn y coleg neu'r brifysgol
- Prentisiaeth
- Hunangyflogaeth
- Cael swydd

Mae cefnogaeth ar gael yma

Os yw'ch plentyn yn meddwl am y brifysgol, dylai fod wedi dechrau ei gais eisoes drwy ymchwilio i opsiynau, mynychu diwrnodau agored a meddwl am ei ddatganiad personol.

Mae llawer i'w ddarganfod am bob un o'r opsiynau hyn. Bydd ein gwybodaeth llwybrau gyrfa yn helpu i wneud hyn.

Bwletin Swyddi Cymru'n Gweithio

Os ydych chi fel rhiant am archwilio cyfleoedd gwaith, gall Cymru'n Gweithio helpu.

Gall ein Bwletin Swyddi roi mynediad i chi i swyddi gwag cyfredol ledled Cymru.

Cymru'n Gweithio
#newiddystori

Tanysgrifiwch yma heddiw

Gweithio gyda chyflogwyr

Wyddech chi ein bod yn cysylltu ysgolion â chyflogwyr lleol?

Mae ymgysylltu â chyflogwyr yn rhan bwysig o daith addysgol eich plentyn.

Gall ymgysylltu â chyflogwyr godi dyheadau a gwella ymwybyddiaeth eich plentyn o'r ystod o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael iddo.

Dyma rai enghreifftiau o'n gwaith gyda chyflogwyr:

Blas ar yrfa yn y diwydiant technoleg bwyd i ddisgyblion Aberystwyth

Gwnaethom ymuno â busnesau lleol yn Aberystwyth i helpu i ddangos y cyfleoedd gyrfa yn y diwydiant bwyd i ddisgyblion Ysgol Penglais. Gan weithio gyda Hybu Cig Cymru, Hyfforddiant Cambrian a Rachel's Organic, trefnodd ein cynghorwyr cyswllt busnes i'r busnesau lleol ddarparu gweithdai rhyngweithiol.

Busnes Sir y Fflint yn helpu unigolyn ifanc i osod sylfeini ar gyfer gyrfa ym maes adeiladu

Gwnaeth Pure Homes bartneru â ni i helpu pobl ifanc i ddeall yr ystod eang o rolau sydd ar gael ym maes adeiladu. Mae'r sefydliad hefyd wedi dod yn un o'r datblygwyr tai mwyaf blaenllaw yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru ynghyd ag yng Ngogledd-orllewin Lloegr.

Myfyriwr o Abertawe yn sicrhau swydd fel hyfforddwr pêl-droed ar ôl ffug-gyfweliad.

Un o nifer o ffyrdd y gall cyflogwyr lleol helpu pobl ifanc i brofi byd gwaith yw trwy ddarparu ffug-gyfweliadau. Gwnaeth Andrea John, y cynghorydd cyswllt busnes, gysylltu â Kieran Birch o Proelio Coaching, sy'n darparu hyfforddiant pêl-droed un-i-un yn Abertawe.

Mae'r storiau llawn a rhagor o enghreifftiau o gyflogwyr yn cefnogi pobl ifanc mewn ysgolion i'w gweld yma

Deg ffordd o gefnogi'ch plentyn gyda'i benderfyniadau gyrfa:

1 Cefnogwch syniadau eich plentyn.

Mae unigolyn ifanc yn fwy tebygol o fod â chymhelliant ac yn llwyddiannus os yw'n meddwl am ei syniadau ei hun ac yn gwneud penderfyniadau drosto'i hunan. Cefnogwch ei frwdfrydedd

2 Cadwch y trafodaethau'n eang i ddechrau ac osgoi canolbwyntio ar deitlau swyddi.

Dechreuwch drwy siarad am bethau fel sgiliau, diddordebau, nodau, ffordd o fyw a gwerthoedd. Gallwch weld lle mae'r sgyrsiau hyn yn arwain a pha swyddi sy'n ymddangos.

3 Eisteddwch a chwblhewch ein hadnoddau ar-lein gyda'ch gilydd.

Gall y cwis Buzz ganiatáu i'ch plentyn ddarganfod pa fath o bersonoliaeth sydd ganddo a chael syniadau am swyddi y gallai fod eisiau ymchwilio iddynt ymhellach.

4 Hyrwyddwch gyfleoedd allgyrsiol.

Gall helpu ac annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol gynyddu eu cyfleoedd. Bydd yn eu helpu i ddatblygu sgiliau, adeiladu rhwydwaith ac ehangu eu gorwelion.

5 Byddwch â meddwl agored am opsiynau ôl-16.

Gall cyrsiau coleg, BTEC, NVQs yn ogystal â chymhwyster Safon Uwch oll arwain at gyflogaeth lwyddiannus neu astudiaeth bellach yn y brifysgol. Mae cyfleoedd prentisiaeth ar gael mewn cannoedd o alwedigaethau, a rhai efallai nad ydych wedi meddwl amdanynt. Mae yna hefyd opsiynau i fynd yn syth i mewn i'r byd gwaith. Mae llawer o lwybrau gwahanol y gellir eu cymryd er mwyn gweithio yn y rhan fwyaf o alwedigaethau ac mae'n bwysig ystyried dull dysgu a gallu academaidd.

6 Siaradwch am eich profiadau eich hun a'ch agwedd tuag at addysg a gwaith.

Bydd eich gwerthoedd a'ch barn yn dylanwadu ar orwelion eich plentyn a'i benderfyniadau yn y dyfodol.

7 Hyrwyddwch annibyniaeth ariannol a sgiliau cyllidebu.

Mae'n bwysig gwybod faint mae pethau'n eu costio a sut mae lefel cyflog yn dylanwadu ar ffordd o fyw. Agorwch gyfrif banc neu gerdyn rhagdaledig ac anogwch wariant cyfrifol.

8 Defnyddiwch eich rhwydweithiau.

Gofynnwch i ffrindiau a theulu sy'n gwneud swyddi gwahanol i siarad â'ch plentyn.

9 Anogwch waith rhan-amser, gwirfoddoli a phrofiad gwaith.

Mae rolau gwasanaeth cwsmeriaid yn ffordd wych o feithrin hyder, sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol. Bydd cyfathrebu ag ystod eang o bobl yn y gwaith yn cyflwyno eich plentyn i syniadau a barnau newydd.

10 Siaradwch am y newyddion.

Sgwrsiwch am erthyglau newyddion y gallai fod wedi'u gweld a'u perthnasedd i'r economi a marchnad swyddi'r dyfodol.

Cysylltwch â ni:

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio 0800 028 4844
- Anfonwch neges e-bost i post@gyrfacymru.llyw.cymru
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy gyrfacymru.llyw.cymru
- Galwch heibio i un o'n canolfannau gyrfaoedd

Dilynwch **Gyrfa Cymru** ar y cyfryngau cymdeithasol